

## Canllawiau ar gyfer cymeradwyo modiwlau newydd – gan y Panel Dilysu Modiwlau Newydd.

Rhaid cyflwyno pob modiwl newydd gan ddefnyddio'r ffurflen PIP (Project Gwybodaeth Rhaglenni).

[https://apps.bangor.ac.uk/pip\\_module/](https://apps.bangor.ac.uk/pip_module/)

**Rhaid llenwi ffurflen Cynnig/Adolygu Modiwl** a'i hanfon i'r Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu ynghyd â'r disgrifyddion PIP.

<https://www.bangor.ac.uk/quality/course/valid.php.cy>

Dogfennau pellach:

- Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu  
<https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code08.php.cy>
- Canllawiau i Ddeilliannau Dysgu mewn Modiwlau  
<https://www.bangor.ac.uk/quality/course/documents/GuidelinestoLearningOutcomes.pdf>
- Fframwaith Asesu  
<https://www.bangor.ac.uk/quality/course/documents/BUAssessmentFrameworkOct2018.pdf>

### Cymeradwyo'r Modiwl

Bydd y Panel Dilysu Modiwlau Newydd yn asesu modiwlau yn erbyn y gosodiadau isod ac yn dod i un o'r penderfyniadau canlynol:

- Cymeradwyo'r modiwl
- Cymeradwyo'r modiwl ar yr amod bod yr ysgol yn gwneud mân ddiwygiadau. Caiff y rhain eu nodi a dylid eu cwblhau cyn cynnwys y modiwl ym mlwyddlyfr y brifysgol
- Peidio â chymeradwyo'r modiwl a'i gyfeirio'n ôl i'r ysgol

### Rhaid i'r drefn gymeradwyo modiwlau ystyried y canlynol

Anghenion pob myfyriwr.

- Deilliannau dysgu'r modiwl, gan gynnwys eu heglurder a'u haddasrwydd i'r lefel ddysgu benodol.
- Strwythur a chynnwys y modiwl, gan gynnwys i ba raddau y mae'n cynnig cyfleoedd dysgu priodol i fyfyrwyr sy'n eu galluogi i gyflawni'r deilliannau dysgu.
- Y strategaeth addysgu a dysgu, yn cynnwys defnyddio asesu ffurfiannol a TGCh.
- Pwysoliad credydau'r modiwl.
- Y strategaeth asesu, gan gynnwys pa mor effeithiol y mae wrth fesur cyflawniad y deilliannau dysgu.
- Y meini prawf marcio a pha mor addas ydynt i'r dulliau asesu, y deilliannau dysgu a lefel y dysgu
- Yr adnoddau ffisegol, dynol neu faterol sydd eu hangen i gyflwyno'r rhaglen.
- Y cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu ac arddangos sgiliau trosglwyddadwy.
- Os yw modiwl yn cael ei ddiwygio neu ei ddisodli, effaith unrhyw ddiwygiadau ar raglenni eraill y mae'r modiwl yn rhan orfodol ohonynt.
- A yw'r modiwl yn cynnwys dysgu a/neu asesu gan staff nad ydynt yn aelodau o'r brifysgol.
- A oes raid i staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r modiwl neu i fyfyrwyr sy'n cymryd y modiwl gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er enghraifft os yw'r modiwl yn golygu dod i gysylltiad â phlant neu oedolion bregus.
- Bod y modiwl yn cydymffurfio â rheoliadau'r brifysgol a bod unrhyw wyriadau a ganiateir oddi wrth y rheoliadau wedi eu cyfiawnhau a'u diffinio'n briodol.

- Sgiliau pwnc-benodol, a ddylai gyfeirio at feincnodau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac unrhyw ofynion perthnasol gan Gyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol fel bo'n briodol.
- Y strategaeth asesu, gan gynnwys pa mor effeithiol y mae wrth fesur cyflawniad y deilliannau dysgu. Rhaid i fodiwlau gael eu hasesu'n unol â fframwaith asesu'r brifysgol.

### Cod y Modiwl

- Bydd angen llenwi ffurflen ar PIP i roi gwybod i weinyddwyr fod yn rhaid iddynt greu codau modiwl newydd yn Banner. Gofynnir ichi am deitl byr ar yr adeg hon.
- Unwaith bydd y modiwl wedi ei osod yn Banner cewch eich hysbysu trwy e-bost a bydd hyn yn cynnwys cyswllt â'r modiwl er mwyn cwblhau manylion y cynnwys.
- Bydd angen cod ar wahân i fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un modiwl. Bydd angen codau ar wahân ar gyfer lefelau 5 neu 6.
- Dylid rhoi'r cod 'C' i fodiwlau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a 'B' i fodiwlau a gyflwynir yn ddwyieithog. Y cod llythrennol yw'r trydydd symbol yn rhif y modiwl. Er enghraifft:
  - Er enghraifft mae BSC-1005 yn fersiwn Cymraeg o fodiwl BSX-1005 a gynigir yn yr Ysgol Gwyddorau Biolegol.

### Nifer y Credydau

- Dylai modiwlau israddedig fod yn 10 credyd neu luoswm o 10. Dylai'r cyfanswm credydau gyd-fynd â'r oriau dysgu tybiannol.
- Mae 10 credyd yn hafal i 100 awr

### Addysgu ar y cyd ar draws lefelau

Caniateir addysgu ar y cyd ar draws lefelau 5 a 6 neu lefel 6 a 7 ond rhaid eu cynllunio yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Rhaid cael modiwlau wedi eu codio a'u dilysu ar wahân ar gyfer pob Lefel gyda **deilliannau dysgu a dulliau asesu y gellir gwahaniaethu rhyngddynt yn eglur.**
- Os addysgir modiwlau bob yn ail flwyddyn, rhaid cynllunio fersiynau Lefel 5 a Lefel 6 o'r modiwl fel y gall pob grŵp carfan gyflawni pob un o'r deilliannau dysgu.
- Fel rheol, bydd gweithgareddau addysgu ar y cyd ar draws modiwlau ar ffurf rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr trwy gyfrwng darlithoedd neu astudiaethau achos. Dylid ystyried yn ofalus faint o'r amser cyswllt a roddir i weithgareddau ar y cyd ar draws dau fodiwl lle addysgir ar y cyd ar draws lefelau, gan gymryd i ystyriaeth fformat y gweithgareddau addysgu. Er enghraifft, mewn modiwl a gyflwynir ar ffurf darlithoedd yn unig gellid cyfuno'r holl amser cyswllt. Ar y llaw arall, mewn modiwl a gyflwynir yn rhannol trwy ddarlithoedd ac yn rhannol trwy diwtorialau, dim ond yr elfen ddarlithoedd y dylid ei chyfuno.
- Os disgwylir i fyfyrwyr drafod, dadansoddi neu ddehongli, dylid trefnu gweithgareddau ac asesiadau ar wahân i bob lefel. Fel rheol bydd gweithgareddau felly ar ffurf tiwtorialau, seminarau, gwaith grŵp a chyflwyniadau.
- Mae'n rhaid wrth wahanol asesiadau a/neu feini prawf marcio ar draws lefelau. Ni ddylid neilltuo mwy na 25% o farciau'r modiwlau i feini prawf asesu neu farcio unfath ar draws dau fodiwl sy'n defnyddio dulliau dysgu ar y cyd ar draws lefelau 5 a 6. Ni ddylid rhoi asesiadau unfath mewn modiwlau lle dysgir ar y cyd ar draws lefelau 6 a 7.
- Os yw myfyrwyr Lefel 5 a Lefel 6 yn gwneud elfennau asesu unfath, dylid asesu a safoni gwaith myfyrwyr o fewn eu grwpiau carfan ac nid ar draws grwpiau Lefel 5 a Lefel 6. Mae hefyd yn ymarfer da i safonwyr ystyried a oes digon o wahaniaethu wrth farcio gwaith myfyrwyr Lefel 5 a Lefel 6. Pan fydd ysgolion yn dymuno dilysu neu ail-ddilysu modiwlau a ddysgir ar draws lefelau, dylid cyflwyno'r ddwy fersiwn i'w cymeradwyo.

## CYFLWYNO COFNOD PIP

Dylai cynullwyr fod yn ymwybodol y bydd y disgrifwyr PIP yn cael eu cyhoeddi yn y Blwyddlyfr ar-lein. Felly mae'n hanfodol bod disgrifyddion y modiwl wedi'u hysgrifennu mewn dull sy'n rhwydd i fyfyrwr eu deall.

### 1. ADRAN GWYBODAETH GYFFREDINOL

#### Teitl

- Dylai'r teitl adlewyrchu cynnwys y modiwl.
- Dylid osgoi teitlau megis 'Coedwigaeth 1' neu 'Marchnata 2'. Efallai fod ystyr i'r rhain o fewn yr ysgol neu'r brifysgol ond gallant fod yn gymharol ddiwerth i gyflogwr sy'n edrych ar drawsgrifiad myfyriwr.
- Ni ddylai'r prif deitl a nodir gyda'r cod fod yn fwy na 30 nod gyda bylchau. Gellir darparu teitl hir mewn adran arall.

#### Amcanion

Dylai'r adran hon gynnwys disgrifiad cyffredinol o'r modiwl ar ffurf paragraff byr. Dylid ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n rhoi crynodeb cyffredinol i fyfyrwr o amcanion y modiwl.

#### Cynnwys

Mae hwn fel rheol yn baragraff sy'n crynhoi'r prif themâu. Os ydych chi'n darparu rhestr o gynnwys yna dylech gynnwys pennawd fel 'Rhestr enghreifftiol o gynnwys y cwrs' neu 'Gall pynciau gynnwys'.

#### Gwiriad DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

- Nid oes angen y gwiriad hwn yn achos y rhan fwyaf o fodiwlau.

Yn unol â Pholisiau Dan 18 Oed ac Oedolion Bregus y Brifysgol rhaid cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan rai amgylchiadau, yn arbennig pan fydd myfyrwr ac/neu staff yn cael cyswllt sylweddol, a chyson neu reolaidd â phobl ifanc dan 18 oed neu oedolion bregus, a hynny heb oruchwyliaeth. Os nad ydych yn siŵr dylech ofyn cyngor gan Bennaeth eich Ysgol neu Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu'r Coleg.

### 2. ADRANNAU DEILLIANNAU DYSGU

#### (cyfeiriwch hefyd at Arweiniad i'r Deilliannau Dysgu mewn Modiwlau)

Cliciwch ar 'Ychwanegu deilliant dysgu' i nodi pob un. Rhaid eu cofnodi ar wahân er mwyn eu cysylltu ag asesiad.

Dylai pob deilliant dysgu ddechrau gyda berf ac adlewyrchu lefel y dysgu a'r deall.

Er enghraifft:

- Gallai modiwlau lefel 4 (blwyddyn gyntaf) gyflwyno gwybodaeth a chysyniadau
- Gellid disgwyl i fyfyrwr sy'n cwblhau modiwlau ar lefel 6 (trydedd flwyddyn) a 7 (Meistr) arfarnu, beirniadu neu drafod pynciau ar lefel uwch.

Argymhellir y dylai modiwl 10 credyd fod â thua 4 deilliant dysgu a thua 6 ar gyfer modiwl 20 credyd.

### 3. ADRAN MEINI PRAWF ASESU

Fel isafswm dylai'r blwch hwn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i fyfyrwr ei wneud neu ei arddangos er mwyn cyrraedd gwahanol lefelau perfformiad (trothwy, da, rhagorol). Mae angen ysgrifennu meini prawf marcio yn y fath ffordd fel y gall myfyrwr eu deall yn hawdd.

**Yn ddelfrydol dylai fod gan bob modiwl ei feini prawf marcio penodol ei hun sy'n berthnasol i'r pwnc.** Caniateir defnyddio meini prawf cyffredinol, ar yr amod eu bod yn ddigon manwl ac yn berthnasol i'r modiwl a'r dulliau asesu.

PIP Rhennir y Meini Prawf Asesu yn dair adran, ond rhaid i chi gynnwys y marcio categorïaidd. Bydd myfyrrwyr eisïau gwybod beth fydd y marc am Ragorol, Da a Trothwy.

	Israddedig	Ôl-radd Hyfforddedig
<b>Rhagorol</b>	70%> -A	70%>
<b>Da</b>	50%> -B	60%>
<b>Trothwy</b>	40%> -D	50%>
Gellir defnyddio yr ystod Marcïau Categorïaidd.		

#### 4. ADRAN DULL ASESU

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am bob ffurf ar asesu crynodol yn y modiwl sy'n cyfrannu at farc terfynol y modiwl.

##### Gwaith grŵp/Asesu Cyfoedion

Lle mae asesu'n cynnwys gwaith grŵp neu asesu cyfoedion dylid nodi'n eglur y dull o bennu marc myfyriwr unigol.

Materion i'w hystyried:

- A roddir marc grŵp neu farc unigol i'r myfyriwr? Os yw'n farc grŵp dylid ystyried rhoi pwysiad % is iddo
- Rhaid monitro asesu cyfoedion a sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu er mwyn sicrhau chwarae teg i'r holl fyfyrwyr. Sut caiff ei ail farcio neu ei wirio os oes cwyn?
- **Rhaid** i farc gael ei gysylltu â darn o waith, felly **ni** chaniateir cysylltu asesu â phresenoldeb.

##### Disgrifiad

Disgrifiad byr o'r gwaith i'w asesu. Nid yw'n ddigon nodi Gwaith Cwrs neu Draethawd. Bydd yn rhaid rhoi disgrifiad byr i'r myfyriwr. Peidiwch â chynnwys teitlau traethawd penodol oherwydd unwaith bydd y modiwl wedi ei gyhoeddi yn y Blwyddlyfr ni ellir ei newid.

##### Deilliannau Dysgu

Cysylltwch y deilliannau dysgu â'r asesiadau. Dylai pob asesiad fesur un neu fwy o ddeilliannau dysgu a rhaid asesu pob deiliant o leiaf unwaith. Peidiwch â chlicio ar yr holl ddeilliannau dysgu i'r holl asesiadau gan y gellid ystyried hyn fel gorasesu.

##### Pwysïadau

Rhaid cynnwys pwysïadau'r gwahanol elfennau a rhaid gallu eu cymharu o ran y gwaith sydd ynghlwm.

##### Mesur y llwyth asesu (cyfeiriwch at y Fframwaith Asesu)

Mae angen disgrifiad llawn. Rhaid cynnwys y canlynol:

- terfynau geiriau adroddiadau/traethodau/blogiau etc.
- terfynau amser arholiadau a chyflwyniadau.

#### Darnau o'r Fframwaith Asesu

##### Baich Gwaith Asesu a Chanllawiau Cywerthedd

Er mwyn gweithredu'r egwyddorion uchod, dylai'r rhai sy'n cynllunio modiwlau a rhaglenni gymryd camau i sicrhau bod y baich gwaith asesu'n briodol, ac yn dod o fewn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol gan reoliadau Prifysgol Bangor.

Fel canllaw, awgrymir fel man cychwyn y dylai asesiad gael **amser ymdrech tybiedig o 2-2.5 awr i bob credyd.\***

Yn achos dulliau asesu traddodiadol gellid trosi hyn yn **200-250 gair y credyd** (am draethawd), a **12-15 munud y credyd** (yn achos arholiad). Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod arholiad 1 awr yn cynrychioli 10 awr o amser ymdrech, a bod traethawd 1,000 o eiriau hefyd yn cynrychioli 10 awr o amser ymdrech.

Ar sail dull asesiad sengl damcaniaethol, mae hyn yn awgrymu (ond nodwch egwyddor 5 uchod), y byddai gan fodiwl 10 credyd naill ai draethawd 2,000 - 2,500 o eiriau neu arholiad 2-2.5 awr, gyda chyfanswm amser ymdrech o 20-25 awr.

O ran cywerthoedd, awgrymir y byddai angen 10 awr o amser ymdrech i bob un o'r canlynol:

- Poster;
- Prawf amlddewis yn para awr;
- Cyflwyniad llafar 10 munud;
- Perfformiad cerddorol o 10 munud;
- Cofnod adfyfyriol 2,000 o eiriau mewn dyddiadur/blog;
- Asesiad clinigol 10 munud.

Mae enghreifftiau o gyfuniadau o wahanol asesiadau i'w cael yn y Fframwaith Asesu.

## Detholiadau o Reoliad 01: Gwaith Cwrs ac Arholiadau

Ar gyfer projectau ymchwil cyrsiau Ôl-radd Hyfforddedig:

- Project ymchwil 60 credyd - uchafswm o 20,000 o eiriau
- Project ymchwil 60 credyd - uchafswm o 40,000 o eiriau

Faint o waith a asesir

- Os asesir modiwl trwy gyfuniad o ddulliau, dylid addasu hyd yr arholiad a'r gwaith cwrs. Er enghraifft, mewn modiwl 10 credyd a asesir trwy arholiad a thraethawd (y ddau'n werth 50% o farciau'r modiwl), ni chaiff yr arholiad fod yn hirach na 1½ awr ac ni chaiff y traethawd fod yn hirach na 2,000 o eiriau.
- Rhaid i drefnwyr y modiwl wneud yn siŵr bod yr amser gofynnol ar gyfer asesiadau (gan gynnwys amser paratoi) ynghyd â'r amser a dreulir mewn gweithgareddau eraill (e.e. darlithoedd) yn 100 o oriau dysgu fesul modiwl 10 credyd.

Uchafswm Geiriau

- Rhaid pennu terfyn geiriau gwaith cwrs pan gaiff modiwlau eu cymeradwyo.
- Rhaid rhoi'r terfyn geiriau i'r myfyrwyr gyda manylion pob asesiad.
- Nid yw'r terfyn geiriau yn cynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth. Mae'r terfyn geiriau yn cynnwys atodiadau.

Yn achos modiwlau ac eithrio projectau ymchwil ar gyrsiau ôl-radd hyfforddedig, gall trefnydd y modiwl osod terfyn geiriau sy'n cynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth, ar yr amod bod myfyrwyr yn gwybod eu bod wedi eu cynnwys yn y terfyn geiriau.

## 5. ADRAN DULL ADDYSGU

### Oriau Dysgu Tybiannol

- Dylai cyfanswm yr amser 'cyswllt' ac 'astudio preifat' yn y modiwl gyd-fynd â'r 'cyfanswm credydau'
- Er enghraifft ar gyfer modiwl 20 credyd dylai cyfanswm yr amser astudio preifat a'r amser cyswllt fod yn 200 awr.
- Dylid dadansoddi'r oriau cyswllt yn yr adran 'patrwm y dysgu' a rhestru sut y cyflwynir y rhain yn yr adran strategaeth addysgu. Er enghraifft:
  - Ar gyfer modiwl 20 credyd gyda 48 awr o amser cyswllt, rhaid wrth 152 awr o astudio preifat.

Yn y cofnod PIP rhaid i chi lenwi pob adran:

- Strategaeth addysgu: Dylech gynnwys crynodeb byr o sut y bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno bob wythnos trwy ddadansoddi'r amser cyswllt er enghraifft:
  - Darlithoedd – 24 awr (2 yr wythnos dros 12 wythnos)
  - Seminarau – 12 awr (1 yr wythnos dros 12 wythnos)
  - Ymweliadau allanol – 12 awr (4 ymweliad x 3 awr)
- Rhaid cynnwys disgrifiad byr o'r hyn y mae disgwyl i'r myfyrwyr ei gyflawni mewn astudio preifat

**Sylwer:**

- Bydd PIP yn anfon neges wall atoch os yw'r oriau'n llai na'r gofyniad, ond cofiwch fod 9.5 awr ar hyn o bryd yn cael ei dalgrynnu i 10 awr
- Dylai'r dull addysgu fod yn glir a dylid ei adlewyrchu ym manyleb y rhaglen wedi'i alinio. Os yw modiwl yn fodiwl craidd mewn rhaglen yna mae'n rhaid i'r dull addysgu gael ei restru a mapio yn erbyn deilliannau dysgu'r rhaglen.

## 6. ADRAN SGILIAU CYFLOGADWYEDD/TROSGLWYDDADWY

Mae'r rhestr hon wedi'i phennu ymlaen llaw a dim ond sgiliau perthnasol y dylid eu dewis.

## 7. SGILIAU PWNC-BENODOL

Gellir anfon Meincnodau Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y maes pwnc perthnasol at TG i'w huwchlwytho ar PIP. Gellir uwchlwytho disgrifiadau ychwanegol i'r system.

## 8. ADRAN ADNODDAU

- Cynhwyswch restr o destunau craidd (llyfrau, erthyglau ar-lein a chyfnodolion).
- Trefnwch a chynhwyswch gyswllt â Talis (Llyfrgell) ar gyfer y brif restr ddarllen.
- Cynhwyswch fanylion unrhyw gost ychwanegol sy'n berthnasol i'r modiwl. Er enghraifft:
  - Teithiau maes
    - Cost teithio/ llety
    - Cost dillad addas i fynd ar y safle neu i gyflawni tasg benodol
    - Cost offer y bydd ei angen arnynt
  - Argraffu/rhwymo
  - Cyfarpar cyffredinol.
    - Gliniadur (dysgu o bell)
  - Nodyn meddyg

**Sylwer:** Yn unol â Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 rhaid i ni hysbysu myfyrwyr yn eglur o unrhyw gost ychwanegol y gallant ei hwynebu ar eu rhaglen radd. Ond, byddem yn cynghori yn erbyn nodi swm penodol oherwydd gall hyn newid a byddem felly yn rhoi'r wybodaeth anghywir i fyfyrwyr.